

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

4/6/2015

Presennol: Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Edith Roberts, Dilys Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Islwyn Pritchard Jones, Ivora Jones, Carol Rowlands, John C Williams, Y Clerc, Lis Puw.

Ymddiheuriadau: Dorothei Evans, Sharon Evans, Alun Price, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan

1. Estynnodd y Maer groeso cynnes i bawb.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 14/5/15 ar ôl ychwanegu enw Ivora Jones at restr y rhai a oedd yn bresennol.
5. Diolchwyd i Swyddogion Cyngor Gwynedd am yr ymatebion manwl a dderbyniodd y Clerc i bryderon a godwyd yng nghyfarfod mis Mai:
 - i. Mae'r swyddog Gorfodaeth wedi bod yn trafod gyda'r perchnogion sydd yn gosod hysbysebion busnes mewn mannau sy'n creu rhwystr ac fe fydd y sefyllfa yn cael ei fonitro.
 - ii. Mae'r mater o gyflymder traffig ar hyd y Stryd Fawr a Heol Tegid yn derbyn sylw'r Gwasanaeth Trafnidiaeth.
 - iii. Mae'r angen am ail wynebu'r Stryd Fawr yn parhau o dan drafodaeth gyda'r Asiantaeth Cefnffyrdd.
 - iv. Mae cais y Cyngor Tref i Gyngor Gwynedd ddynodi safle ar gyfer lloches bws yn parhau i dderbyn sylw gan Wunedd.
 - v. Mae problem parcio am gyfnod hir yn Heol yr Orsaf yn cael sylw'r Rheolwr Parcio.
6. **Materion y Cyngorydd Sir:** Cadarnhaodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan mewn neges i'r Cyngor Tref ei fod yn parhau i geisio cael dyddiad ar gyfer ail wynebu'r Stryd Fawr. Mae hefyd yn pwysu ar yr awdurdodau i ddewis safle ar gyfer lloches bws a stondin beiciau. Mae hefyd yn cymryd camau cyfreithiol i ail agor Llwybr y Sgotwyr fel llwybr cyhoeddus.
7. **Materion Cyllid:**
 - i. Derbyniwyd adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid 19/5/15 a gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
 - ii. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol wedi ei harchwilio gan yr Archwilydd Mewnol i'w gyrru ymlaen at Archwilydd Hacker Young.
 - iii. Cytunwyd i dalu am yr hysbysfwrdd.
 - iv. Cytunwyd i dalu cyflog y Clerc am fis Mai.
 - v. Derbyniwyd cadarnhad fod y Cyngor wedi ei gofrestru ar gyfer y Rheolydd Pensiynau.
 - vi. Cyfarwyddwyd y Clerc i ohebu eto parthed yr anfoneb am brydles Y Domen.

8. **Gohebiaeth:**
- i. Un Llais Cymru: Derbyniwyd nifer o e-byst yng nglyn â chyhoeddi buddiant aelodau ar y we, ond cytunwyd i aros hyd nes derbynir cyfarwyddyd clir.
 - ii. Rhannwyd gwybodaeth gan Grŵp Cynefin am arian ar gyfer prosiectau bychain er lles y gymuned. Cytunodd y Cynghorwyr i ledaenu'r neges.
 - iii. Dosbarthwyd neges oddi wrth Gymdeithas yr Iaith a oedd yn cynnwys sylwadau ar y Cynllun Adnau.
9. **Asedau'r Cyngor** – derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr.
- i. Cytunwyd i ofyn i adeiladwr lleol osod yr Hysbysfwrdd.
 - ii. Cytunwyd i chwilio am brisiau meinciau o blastig wedi ei ailgylchu.
 - iii. Cytunwyd i archebu arwyddion parthed cŵn a sbwriel i'w gosod ar y fynedfa'r domen (os ydyw amodau'r brydles yn caniatáu).
 - iv. Cytunodd y Ddirprwy Faer i archwilio'r asedau.
10. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan y Clerc.
11. **Materion lleol** y Cynghorwyr Tref:
- i. Cytunwyd i dynnu sylw Cyngor Gwynedd fod angen paentio'r mynegbost wrth y groesfan yng nghanol y Stryd Fawr.
 - ii. Derbyniwyd gwybodaeth gan y Cynrychiolwyr fod lawer o gostau ar ganolfan Cymdeithas Chwaraeon Bala a Phenllyn.
 - iii. Nodwyd pryder am gwningod yn bla yng ngerddi a chaeau chwarae'r dref.
 - iv. Cytunwyd i ohebu am y gwasanaeth bws o'r Bala i Riwabon sydd yn cyrraedd ychydig funudau'n rhy hwyr i deithwyr ddal y trê.
 - v. Cytunwyd i gynnwys arfbais y dref ar y Wefan.
 - vi. Mynegwyd dymuniad i dynnu llun bob blwyddyn o'r Maer a'r Cynghorwyr a'i roi ar y Wefan fel modd i godi ymwybyddiaeth trigolion.
 - vii. Cytunwyd i gynnal cyfarfod arbennig ar 10/6/15 gyda'r Arolygydd Dewi Jones i drafod helynt yn y dref adeg Gŵyl y Banc.

Amser gorffen: 9.15